

Adroddiadau Tiwtoriaid o Gynhadledd IATEFL 2011

Cynhadledd IATEFL, Brighton, Ebrill 15 – 18 2011

Bethan Glyn

Dyma'r tro cyntaf i mi fynd i gynhadledd IATEFL a baswn yn argymhell i unrhyw un sy'n cael cynnig i fynd i gynhadledd o'r fath fanteisio ar y cyfle! Er ei fod yn Gynhadledd dysgu Saesneg fel ail-iaith mae'n syndod pa mor berthnasol ydy o ar gyfer dysgu Cymraeg i Oedolion hefyd, yn enwedig o ddewis sesiynau yn ofalus ac osgoi sesiynau gramadegol penodol. Mi es i i nifer o sesiynau gwahanol ond yn bendant y rhai mwyaf defnyddiol i mi oedd rhai oedd yn cynnig syniadau ar gyfer dysgu – defnyddio lluniau a delweddau, sut i wella gwaith gwranddo a defnyddio'r cof.

Mae cyfarfod a chymdeithasu â thiwtorïaid o ardaloedd eraill yn ychwanegu at y profiad wrth gwrs – roedd na nifer o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion o wahanol rannau o Gymru yno, ac roedd sgwrsio efo tiwtoriaid sy'n dysgu Saesneg fel ail-iaith, yn enwedig rhai oedd yn dysgu mewn sefydliadau preifat yn dangos pa mor lwcus rydym ni fel tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion o ran y gefnogaeth a'r hyfforddiant rydym yn ei dderbyn.

Dydd Gwener, 15/4

Pronunciation Special Interest Group – Non-imitative ways of teaching pronunciation

Dydd Gwener, cyn i'r gynhadledd ddechrau o ddifrif, roedd cyfle i fynychu sesiynau ar un pwnc penodol a'r un es i iddo oedd sesiwn ar ynganu efo Piers Messum a Roslyn Young.

Roedd y ddau siaradwr wedi'i dylanwadu gan Caleb Gattegno a'r dull o ddysgu, "The Silent Way" Roedd y sesiynau yn ddigon difyr – yn trafod sut oedd system respiradu plant ifanc yn wahanol iawn i oedolion ac felly mae'n rhaid iddyn nhw greu synau mewn ffordd wahanol hefyd (gan nad ydy system respiradu plant wedi datblygu'n llawn, maen nhw'n methu cadw anadl a'i ruddhau'n araf fel 'bagpipes' fel mae oedolion yn medru'i wneud. Rhaid iddyn nhw 'chwythu' pob sain yn unigol, sy'n llawer o waith). Oherwydd hyn, roedd y siaradwyr yn dweud nad yw plant yn dysgu ynganu drwy wrando a chopio ond drwy ymarfer creu synau ar eu liwt eu hunain. Roeddent yn derbyn fodd bynnag unwaith roedd plant wedi meistrolï'r synau gwahanol y buasant wedyn yn dysgu geirfa a mwy o iaith drwy wrando ac ailadrodd.

Mae dull "The Silent Way" yn rhoi pwyslais ar ddysgwyr yn dysgu'n annibynnol a'u harfogi i atgynhyrchu seiniau mewn ffordd sydd ddim yn dibynnu ar y tiwtor ac yn y prynhawn cawsom wers ynganu yn dilyn y broses yma.

Roedd yr athro'n defnyddio siart lliwiau a phwyntio at wahanol seiniau ffonetig (yn yr achos yma i'n cael i ddysgu seiniau Ffrangeg). Ar ôl i'r tiwtor seinio'r sain cynta (sef 'è'), seiniwyd synau newydd dim ond drwy siap ceg a defnyddio dwylo i annog man newidiadau. Roedd disgwyl i'r dysgwyr ddilyn siap ceg y tiwtor. Roedd hi'n cywiro dim ond pan oedd angen ac yn gwneud hynny drwy wneud siap ceg eto nes bod y dysgwr yn ei gael yn iawn. Roedd hefyd yn defnyddio dysgwyr eraill oedd wedi cael y sain yn iawn i foddelu i weddill y dosbarth.

Mae llawr iawn o adnoddau ar gael i ddysgu seiniau Saesneg yn y dull yma, ac nad yw'r siartiau lliw ffonetig Saesneg o ddefnydd i ni o ran dysgu'r Gymraeg roedd y sesiynau yn gwneud i rywun feddwl pa mor bwysig ydy dysgu ynganu'n iawn o'r cychwyn a bod angen treulio tipyn o amser arno i'w gael yn iawn. Mae'n bwysig hefyd arfogi'r dysgwyr a'u galluogi i ymarfer tu allan i'r dosbarth drwy ddysgu siap ceg ac ati ar gyfer seiniau penodol yn hytrach na gwranddo ac ailadrodd ar ôl y tiwtor yn unig.

Dydd Sadwrn, 16/4

Unleashing the Power of Images – Ceri Jones

“Using images as springboards, centrepieces or memory hooks”

Cymraes o Aberystwyth ydy Ceri ac mae'n byw a dysgu yn Sbaen ers blynyddoedd. Roedd ganddi lawer o syniadau ar sut i ddefnyddio lluniau a delweddau i ymarfer iaith a phrociio sgwrs. Dyma un o'r sesiynau oedd yn fwyaf defnyddiol i mi.

Cychwynodd drwy ddangos llun agos o gerrig glan y mor Brighton a'n cael ni i drafod ein delweddau o Brighton cyn dod yma. Roedd wedi defnyddio gwefan **mosaic maker** i roi nifer o ddelweddau o Brighton at ei gilydd. Yn yr un ffordd, basai modd cymryd llun agos o rywbeth yn y pentref/tref lle mae'r dosbarth yn cael ei gynnal a chael y dosbarth i drafod lle ydy o. Wedyn eu cael i drafod eu delweddau/hargraff cynta o'r dref/pentref ar ôl symud yno – oedd o'n debyg? (Wedyn creu mosaic o ddelweddau lleol eich hun – neu cael dysgwyr i wneud - a'i drafod)

1. Lluniau agos (ee sgwar yn Sbaen/teils/dail/golau; traeth yn *Cádiz*)

Dangos y ddelwedd a thrafod geirfa/syniadau a'u sgwennu ar y bwrdd gwyn.

Agor y llun allan (yn y meddwl)- trafod, be ydy o / dychmygwch bod na bobl yn y llun / pwy ydyn nhw / be maen nhw'n ddeud / pam mae nhw yna / be sy'n digwydd ac ati

(Mi wnes i ddefnyddio'r syniad yma mewn dosbarth gweithle lefel Canol WLPAN ar ôl dwad yn ôl o Brighton . Defnyddiais y cerdyn fflach o ddyn yn torheulo ar ben ei hun ar draeth cerrig. Fe wnaeth y dosbarth yn llawer gwell nag on i wedi ei ddisgwyl. Dydyn nhw ddim yn licio siarad yn rhydd fel arfer ac roedd siarad am y llun wedi eu hymestyn tipyn mwy na siarad amdanynt eu hunain.

Gweler **atodiad 1** am syniadau pellach am sut i ddefnyddio llun mewn gwrs (wedi ei addasu gen i o wefan Ceri Jones)

2. Lluniau personol

Gofyn i'r dysgwyr ddod â llun eu hunain – ella rhywbeth o'u plentyndod / rhywbeth sy'n bwysig iddyn nhw. Trafod lle ydy o, be mae o'n ei olygu iddyn nhw - cyfle i ddatblygu iaith i ddisgrifio rhywbeth sy'n fwy cysylltiedig a'u hiaith gyntaf

3. Sgwennu sydyn

Sgwennu'n sydyn fel ymateb i'r llun neu gofyn am gyfres o eiriau yn ymwneud â'r llun.

Brainstorming. Defnyddio'r 5 synnwyr fel penawdau ar y bwrdd gwyn – cyfle i ehangu geirfa

4. Eltpics (mosaics) – grŵp o luniau diddorol (gwefan eltpics ar flickr)

Y dosbarth i edrych ar y lluniau mewn grŵp a'u trafod

Pa rai sy yn ddiddorol / yn anghyffredin / yn gyffrous / yn drawiadol

Rhoi geirfa/patrymau cychwynol – dw i'n licio/dw i'n meddwl mai ... / mae'n well gen i

5. Cysgodion – ee olwyn beic

Creu darlun eto – beic pwy ydy o, lle mae o'n mynd? Disgrifio ac esbonio be sy ddim yn y llun. Dim ateb cywir/anghywir yma. Hefyd creu stori fel dosbarth am y beic, ei berchennog ac ati – pawb i gyfrannu brawddeg tuag at y stori

6. Lluniau o'r awyr

Syniad 2 – pethau mae’r dosbarth yn eu mwynhau

Pawb i alw allan rhywbeth maen nhw’n licio / licio’i neud – ee teithio, coginio ar gyfer ffrindiau, edrych ar beldroed. Roedd Roger wedi gwneud hyn efo’i ddosbarth ei hun a’r 5 peth mwya poblogaidd oedd – pryd o fwyd mewn ty bwyta, gweld ffilm, darllen zen poetry, lluniau Edward Hopper, CD Katherine Jenkins. Aeth ati wedyn i greu gweithgareddau yn ymwneud â’r dewisiadau yma.

Bwyd mewn ty bwyta

Trafod efo partner:

Efo pwy fasech chi’n mynd?

Be mae o / hi / nhw’n neud rwan? Pam?

Be dach chi’n licio neud / efo pwy dach chi’n licio / be mae o’n wneud rwan / sut dach chi’n gwybod – sgwrsio i ymarfer y presennol

Llun gan Edward Hopper

(Llun o hogan ifanc mewn caffi yn gwisgo ei chot ac yn edrych yn drist)

Creu stori mewn grŵp efo 3 penawd

Be sy’n digwydd? (Mae hi’n cael coffi / mae hi’n drist / mae hi’n oer yn y caffi)

Be sy wedi digwydd? (Dydy ei chariad hi ddim wedi dwad / Mae ei thren wedi’i chanslo)

Be sy’n digwydd nesa? (Mae hi’n mynd adra / mae’r ffon yn canu)

N ewid ffurfiau’r berfau i *roedd / roedd hi wedi* i ymarfer ffurfiau’r gorffennol

Ychwanegu cymeriadau eraill – i ymarfer ansoddeiriau / adferfau / teimladau

Disgrifio’r cefndir

Ychwanegu ‘tro yn y gynffon’, ychwanegu deialog

Zen poetry – “anything can be meaningfully said in seventeen syllables”

Y sialens ydy creu brawddeg fer 17 sill i ddisgrifio/deud rhywbeth

Chwarae cerddoriaeth

Ar ôl gwranddo, dychmygwch eich bod mewn ffilm.

Pa fath o ffilm ydy hi? Be fasech chi’n neud? Pa fath o gymeriad dach chi? Be fasech chi’n neud nesa

Paragraff yn crynhoi ffilm

Creu fersiwn arall o’r stori. Ee rhywun yn cyrraedd y tube yn Llundain a’i gwynt yn ei dwrn ac yn llwyddo i ddal y tren. Disgrifio be ddigwyddodd wedyn.

Gofyn y cwestiwn, tasai hi ddim wedi dal y tren, fasai hi ddim wedi

(fel yn y ffilm Sliding Doors)

I grynhoi,

- darganfod be ydy diddordebau’r dosbarth
- dewis yr un mwya poblogaidd i gychwyn
- creu gwersi sy’n adlewyrchu eu diddordebau fel dosbarth

Dydd Sadwrn, 16/4

“Arousal” in the Classroom – Tamara Jones - 10 gem i ‘ddeffro’ ac ysgogi’r dosbarth

Motivation + attention = arousal

*The physical context of arousal = positive social bonding, playfulness
and joy required to learn best.*

Emotion is key to language learning and to drive attention and memory

1. **Creu gemau bwrdd** – gweler *google images* (ee *game board/ snakes and ladders*)
Gellir adolygu unrhwyl beth bron drwy’r dull yma – ychwanegu clipart, geiriau, symbolau.
Ee defnyddio template neidr i greu penawdau sgwrsio. Taflu dis i ddewis un ac wedyn
symud ymlaen i’r nesa

2. **Matsio cardiau**

Gem cynhesu i fyny ee ysgol haf / dechrau tymor newydd.

Pawb i gael cerdyn – mae angen cerdded o gwmpas y dosbarth a ffindio’r cerdyn sy’n
matsio, ee David Beckham a Victoria; bacwn ac wŷy; ci a chath)

Dull 1 – gofyn cwestiynau (heb weld cerdyn y person arall)

Atgoffa o yes/nos syml fel: Dyn dach chi? / Dach chi’n licio? / Sgynnoch chi deulu?
Holi wedyn i ddarganfod mwy am y cerdyn. Dim gofyn cwestiynau agored

Dull 2 – rhoi cliwiau syml (heb weld cerdyn y person arall)

Ee cerdyn bacwn - mae gen i rywbeth i’w fwyta; cerdyn ci – anifail dw i

Cerdyn David Beckham - Dw i’n chwarae peldroed; Dwi’n newid fy ngwallt yn aml; Mae gen i
3 o blant ac 1 ar y ffordd (efo cardiau pobl, gellid argraffu’r cwestiynau ar y cerdyn)

Rhoi mwy o gliwiau os ydy’r cardiau’n debyg, ond os ydyn nhw ddim, symud ymlaen i’r nesa
yn syth (dydy dw i’n chwarae peldroed yn amlwg ddim yn matsio cerdyn wŷy!)

Dull 3 – gwybodaeth gyffredinol – angen ffindio’r ateb cywir. Yn yr achos yma, dach chi’n
cael gweld cardiau pobl eraill ond maen rhaid gwybod be ydy’r ateb

Ee idiomau/diarhebion: Nid aur yw popeth melyn; i’r pant y rhed y dŵr

Cwestiynau chwaraeon: Pwy ennillodd gwpan yr FA eleni? Man City

Pwy ennillodd gwpan y gyngrhair? Birmingham

3. **Dis**

Marcio gwaith cartref – rhannu’n 2 dîm

Bob tro mae’r cwestiwn yn cael ei ateb yn gywir, mae’r tim yn cael taflu’r dis a chadw sgôr
(mae dis efo ‘0’ yn ychwanegu at yr hwyl!)

4. **Gem dotiau – ffufio bocs**

. . . .

. . . .

. . . .

Dotiau ar y bwrdd gwyn – pob tim i ymuno 2 ddot ar ôl ateb cwestiwn yn gywir (ee gwaith
cartref/ansoddair). Rhaid ffurfio llinell newydd ar ol cwblhau boc (mae’r tim sy’n
cwblhau’r boc sy’n rhoi eu henw yn y boc). Y tîm efo mwya o focsys sy’n ennill

5. **Flyswatter** – angen 2 flyswatter efo handlen (ee o IKEA) (dim hitio eu gilydd!)

Handi i gynhesu i fyny /neu ysgol haf
Timau i sefyll mewn un rhes ym mlaen y dosbarth
Sgwennu ee arddodiaid ar y bwrdd gwyn neu rhoi cardiau mawr arddodiaid ar fwrdd – am/
ar/ at/ i/ wrth. Galw geiriau allan fel sgwennu, meddwl, poeni, deud - un ar y tro a 2 berson
o bob tîm am y cynta i swatio'r arddodiad cywir. Person nesa yn y tim i gymryd drosodd
wedyn fel bod pawb yn cael tro.

6. Gêm Joanne

Gwaith adolygu geirfa. Sgwennu ee *digwydd, prynu, sgorio, ennill, ysgariad, adeiladu* ar y
bwrdd gwyn (geirfa uned 15 WLPAN). 2 neu 3 tim – un ar y tro i greu brawddeg gywir efo'r
gair. Os yn gywir, ei groesi allan yn eu lliw nhw. Os oes problem gramadegol neu ynganu,
dylai'r tiwtor esbonio'n fras be ydy'r broblem a rhoi cyfle i'r tim nesa i ateb.

7. Gêm M & M

Dosbarth newydd / ysgol haf– i dorri'r iâ
Rhoi llond llaw o M & Ms iddyn nhw a chôd ar y bwrdd gwyn yn esbonio'r lliwiau, ee
Bwyd – coch / Gwaith – melyn / Teithio – glas / Cartref – gwyrdd

Y dysgwyr i ddeud cynifer o bethau am y pynciau a sy gynnyn nhw o M&Ms
ee efo 3 M & M melyn, mae angen deud 3 peth am eu gwaith

Defnyddio M & Ms i wneud gwaith darllen yn fwy diddorol

Rhoi côd ar y bwrdd gwyn – disgrifio (coch), adeiladu (glas), goddefol (gwyrdd)
Angen ffindio brawddeg yn y darn darllen yn gyfatebol i't nifer o M&Ms sy gynnyn nhw,
ee 2 M&M coch = 2 frawddeg sy'n disgrifio

8. Playdoh

Ei ddefnyddio i ystumio idiomau mewn timau (yn hytrach nag actio fel charades neu neud
llun fel Pictionary)

9. Gem gywiro – pen lliw gwahanol i bob tim

Sgwennu darn ar y bwrdd gwyn efo cangymeriadau. (taflunio llun OHP ar fwrdd gwyn os yn
bosib) Aelod o bob tim yn dwad i fyny i'w gywiro yn eu lliw nhw

10. The Hot Seat

Gair ar y bwrdd gwyn ee bwrw hen wragedd a ffyn
Gêm tîm – un a'i gefn at y bwrdd gwyn a'r lleill i ddisgrifio'r idiom heb ddefnyddio'r geiriau
sydd ynddo fo

Nodweddion gemau da

Dim pwysau

Symud o gwmpas

Adolygu gwaith

Pawb yn cael eu hannog i gymryd rhan

“When we teach we are changing the form of the brain”

Dydd Sul, 17/4, 2.2

Visualising Language : Activities to make language stick - Carole Robinson

Pam defnyddio pethau gweledol?

Mae pobl yn dysgu mewn nifer o ffyrdd gwahanol Mae hyd at 90% o'r hyn mae'r ymenydd yn ei brosesu yn weledol. Mae pethau ysgogol/cofiadwy (a phersonol) yn aros yn y cof yn hirach)

1. Darn o gerddoriaeth a dewis/creu llun

Hanner y dosbarth i gael taflen efo 4 llun arni hi (ee y 4 tymor, 4 adeilad) a'r gweddill i gael dalen lan. Gwrando fel dosbarth ar ddarn o gerddoriaeth (yn yr achos yma, darn dawnn o Ddwyrain Ewrop). Rhaid i'r grwp cynta drafod pa lun sy'n cydfynd orau â'r gerddoriaeth a rhaid i'r grwp arall dynnu llun o'r hyn mae'r gerddoriaeth yn ei gyfleu iddyn nhw. Mae creu llun yn fwy creadigol ond mae dewis lluniau yn rhoi ffocws culach a mwy o reolaeth i'r tiwtor (a llai bygythiol i ddysgwyr sy ddim yn medru tynnu llun!)

Nôd – datblygu iaith i ddisgrifio llun, iaith rhesymu ac esbonio, iaith i gymharu – a darganfod be mae'r dysgwyr yn ei fwynhau.

Gellir cael ffocws mwy penodol drwy ofyn cwestiynau ee, petai'r miwsig yma'n adeilad, sut un fasai o

2. Guided visualisation

Trafod lle penodol (ee stafell ddosbarth pan yn yr ysgol, y siop fara leol, stafell y dosbarth Cymraeg – os yn yr ysgol haf ac mewn dosbarthiadau gwahanol) efo partner. Mae angen rhywle mae'r ddau berson yn medru siarad amdanynt, sef run math o le, ond lle gwahanol. Cyfle i ymarfer geirfa disgrifio, teimladau, cymharu, ansoddeiriau, amseroedd gwahanol, arddodiaid ac ati. Gall hefyd fod yn bwnc fel fy ngardd / fy hoff le . Gellid dewis pwnc i ffitio i mewn efo be sy isio ei ymarfer. (Does dim angen defnyddiau o gwbl i hwn!)

Os dach chi isio i fyfyrwyr feddwl a chreu a dychmygu, peidiwch a deud gormod – cadwch bethau'n araf a rhoi digon o amser.

Os dach chi isio iddyn nhw gyflawni rhywbeth penodol, mae angen mwy o ganllwiau (ee cardiaid melyn sgwrsio Pellach)

3. Creu llun i helpu i gofio geirfa

Cael y dysgwyr i **greu llun/cartŵn** i'w helpu i gofio geirfa benodol

Ee damwain, argae efo crac a dwr yn dwad trwyddo

4. Llun personol

Pawb i ddwad a llun i'r dosbarth a deud rhywbeth am eu llun wrth berson arall. Eu cael i greu brawddeg sy'n adlewyrchu patrwm mae rhywun eisiau ei ymarfer ee mi faswn i.....

Wedyn ei sgwennu a'i rhoi yn sownd yn gongl uchaf chwith y llun i'w helpu i gofio (mae pobl llaw dde yn edrych ar gornel chwith ucha papur fel arfer).

Nes ymlaen yn y wers, mynd yn ol at y lluniau a gofyn, be oedd eich brawddeg chi?

Drwy greu brawddeg benodol a pherthnasol gobeithio y bydd un frawddeg o'r patrwm yma'n aros yn y cof.

Dydd Sul, 17/4

Activating Memory in the Language Classroom - Hugh Dellar

"The more we expect our students to remember the more they may well be able to remember"
"If you never have a dream you'll never have a dream come true!"

Mae dallt yn hawdd ond mae cofio yn anodd. Mae'n syndod faint o eirfa sydd ei angen i ddod yn rhugl mewn iaith ac mae sylwi ac ailgwyboda, ailadrodd ac aildddefnyddio iaith yn hynod o bwysig fel rhan o'r broses o gofio a'i wneud yn ymddygiad awtomatig (fel gyrru car).

Mae'r rhan fwyaf o 'anghofio' yn digwydd yn fuan ar ôl dysgu. Mae angen dod a mwy o ddysgu ar y cof yn ôl ac un ffordd o wneud hynny ydy drwy brocio'r cof yn y dosbarth neu annog dysgwyr i ddangos/berfformio be maen nhw wedi'i ddysgu mewn ffordd sy'n rhoi'r neges i'r dysgwyr bod sylwi a chofio yn greiddiol i ddysgu iaith.

Ar ddechrau tasgau siarad, mae'n bwysig modelu be sy'n ddisgwyliedig ac wedyn ar ôl sgwrsio, mae angen adolygu, ail greu trafod ac ychwanegu/ehangu'r sgwrs efo'r dosbarth cyfan.

Sut i gofio pethau'n well

- Mae gwybodaeth sydd wedi ei storio efo'i gilydd yn aml yn cael ei gofio efo'i gilydd
- Mae cyflwyno rhywbeth dros amser gan ddwad ag o i mewn ymysg pethau eraill dro ar ôl tro yn fwy effeithiol o ran ei gofio
- Mae brawddegau'n haws i'w cofio mewn cyd-destun a phan maen nhw'n berthnasol
- Mae'n ymddangos ein bod yn dysgu'n well pan fo'r deunydd yn bersonol ac yn berthnasol

Yn un o'i ddosbarthiadau roedd wedi cyflwyno cartŵn o hogyn sydd wedi cael ei bigo gan wenyn, ei fraich wedi chwyddo a'i fam yn edrych fel ei bod hi bron â llewygu. Gofynwyd i'r dysgwyr drafod y cartŵn mewn grŵp ac wedyn adrodd yn ôl. Roedd Y tiwtor wedyn yn adeiladu ar yr hyn roedden nhw wedi ei ddeud, cyflwyno geirfa newydd fel pigo, gwenyn, chyddo, llewygu ac ati ac ailadrodd y disgrifiadau eto. (Buasai modd hefyd cyflwyno peth o'r eirfa ar y dechrau). Roedd o wedi cyflwyno'r cartŵn yma gan fod un o'r dysgwyr wedi cael ei bigo gan wenyn yr wythnos cynt ond ar y pryd doedd yr eirfa ddim gan y dysgwr i allu disgrifio'r digwyddiad yn llawn.

Profi'r cof

Gellid defnyddio unrhyw ymarfer o'r gwrs lyfr – gwaith patrymau, rhan o ddeialog, cwestiwn ac ateb. Ymarfer hwn efo'r dosbarth, defnyddio'r bwrdd gwyn, esbonio a helpu fel bo angen. Cael y dysgwyr i weithio mewn paru wedyn, A a B. B i gau'r llyfr. A i ddarllen y brawddegau a B i drïo cofio'r ymateb heb edrych – A i gywiro os oes angen. Ar ôl ychydig o funudau, newid y paru drosodd – B i brofi, A i drïo cofio.

- Mae hyn yn gweithio'n dda efo grwpiau cymysg – y gwanna i holi'n gynta – bydd wedi clywed rhywun cryfach yn adrodd y patrwm cyn ateb ei hun
- Mae dysgywr yn gallu ymarfer adre
- Mae'n hawdd i'w aildddefnyddio
- Mae'n rhoi'r neges nad yw'n ddigon ymarfer yn y dosbarth a symud ymlaen – mae'n rhaid cymryd sylw, trïo cofio'r iaith a'i ddefnyddio – a gellid gwneud hyn dros gyfnod o amser

Tynnu gwybodaeth allan (re-elicite)

Cael y dosbarth i drafod mewn parau unrhyw ddarn o waith darllen/gwranddo diweddar, ee opera sebon. Gofyn wedyn iddyn nhw adrodd yn ôl

- (Dysgwr) Mae Gruff Gruffudd yn meddwl bod dysgwyr yn poeni am y treigladau
(Tiwtor) Wrth gwrs, mae o'n meddwl eu bod nhw'n poeni **gormod** am y treigladau, maen nhw'n **cwyno** am y treigladau, maen nhw fel **tiwn gron** (esbonio hyn) – be wedyn?
(Dysgwr) Mae Gwen yn glên iawn am Gruff Gruffudd ...
(Tiwtor) Ydy, mae hi'n glên iawn **efo** Gruff, mae hi'n **ffeind** iawn **efo** fo, mae hi yn ei **gysuro** (esbonio)

Mae ymchwil yn dangos y gall dysgwyr ddysgu mwy o iaith yn ein dosbarthiadau ar raddfa gynt nag mae rhywun yn ei ddisgwyl – ac mae'n ymddangos fod yr hyn mae'r tiwtor yn feddwl mae'r dysgwyr yn gallu'i ddysgu yn cael dylanwad clir ar pa mor dda mae'n nhw'n ei wneud. Felly y mwya dan ni'n ddisgwyl i'n dysgwyr ei gofio, y mwya gobeithio y byddan nhw'n llwyddo i gofio.

* * * * *

Dydd Sul, 17/4

Ken Wilson – 10 things (I think) I know about (teaching and learning) kenwilsonelt.wordpress.com

Mae ysgogaeth yn bwysig. Dydy llawer o ddysgwyr (ifanc) ddim yn licio siarad am eu hunain. Dylid gofyn cofyn cwestiynau diddorol fel

Be ydy prif ddinas Peru / pwy ydy'r band gwaetha yn y byd
Yn hytrach na chwestiynau amdanyn nhw i ysgogi trafodaeth

Rhai syniadau eraill

- Ysgogi'r dysgwyr drwy ddewis storiâu diddorol (dim rhai celebrities) fel y ddynes sy'n bwyta dim byd ond creisionmonster munch neu'r ddynes sy'n dal i syrffio ar ol colli ei brach (ar ôl ymosodiad gan siarc)
- Defnyddio'r dysgwyr gorau i helpu eraill;
- Camu'n ôl yn amlach – “*shut up a bit in class*”
- KISS – *keep it simple and short*;
- Have (a bit of) fun

* * * * *

Atodiad 1
Defnyddio lluniau / delweddau i ymarfer iaith (syniadau Ceri Jones)





Tynnwyd y llun cyntaf gan Ceri Jones, sef traeth Zahora, ardal Cádiz, Gorllewin Andalucia, gyda'r nos ym mis Ionawr fel roedd yr haul yn mynd i lawr.

Llun arall o draeth Zahora o Google Images ydy'r ail lun a gellid defnyddio hwn i gymharu'r traeth ar adegau gwahanol. Ai'r un rhan o'r traeth ydy o sgwn i? Mae map uchod hefyd i roi syniad o le mae ardal Cádiz

Dangos fersiwn agos (close-up) o'r traeth i'r dosbarth. Eu cael i ddyfalu be ydy o; pa wlad ydy o; pa amser o'r flwyddyn; pa amser o'r dydd. Dangos y fersiwn llawn ac esbonio lle ydy o

1. Oes gynnoch chi hoff lan y mor – pam? Disgrifiwch y tro diwetha yr aethoch chi yno – oedd hi'n brysur? Sut oedd y tywydd? Be wnaethoch chi? Pa mor hir wnaethoch chi aros? Efo pwy aethoch chi? Os dach chi ddim yn licio glan y môr, pam?
2. Trafod traethau Gwynedd – pa fath o bobl sy'n dod i lan y môr yn yr ardal? Teuluoedd efo plant bach / cyplau wedi ymddeol / pobl sy'n syrffio / cyplau ifanc ar wyliau rhamantus? Pa lan y mor sy'n addas ar gyfer pob grwp a pham?
3. Chwarae rôl.
Dewiswch un grwp o ymwelwyr ar gyfer pob par a meddylwch am y cwestiynau y basen nhw'n licio eu gofyn am y traethau gorau yn yr ardal
 - Trafodwch y grwpiau ymwelwyr. Lle fasech chi yn dod ar eu traws? Pam fasen nhw'n gofyn i chi am wybodaeth? Chwarae rôl
 - Oedd y cyngor yn ddefnyddiol? Pa gwestiynau oedd yn anodd eu hateb (o ran iaith ac o ran cyfathrebu)
 - Tu allan i'r dosbarth – sgwennwch ddisgrifiad o'ch hoff draeth, sgwennwch am hoff le arall, disgrifiwch/ sgriptiwch y chwarae rôl, rhwch eich barn am y wers.

Adroddiad ar Gynhadledd IATEFL
Brighton, Ebrill 15eg-18fed, 2011

Dydd Gwener, Ebrill 15fed
Sesiwn dydd ESOL -SIG (Special Interest Group).

“Spiky profiles and a common core of language”
Dr Philida Schellekens

Mae siaradwyr iaith gyntaf yn meddu ar “language competence” ac yn datblygu y pedwar sgil – Llafar, Gwrando, Ysgrifennu a Darllen.

Dysgu'r “language competence” mae dysgwyr ail iaith. Does ganddyn nhw ddim digon o sgiliau eto i feistrioli'r 4 sgil.

Mae dysgwyr dan anfantais os ydy'r thema neu'r eirfa yn rhai newydd/dieithr. Os ydy dysgwr yn adnabod llai na 95% o eirfa mewn darn darllen, ni fydd yn gallu dyfalu ystyr y geirfa newydd.

Rol athrawon ydy i helpu'r dysgwyr i ddysgu geiriau newydd.

“Learners need to encounter a word many times before they know it’s meaning” - Nation (tua 6 neu 7 o weithiau).

Gramadeg

Gall safon iaith y dysgwyr ymddangos fel pebai yn gwethygu ar ol cyfnod o amser, er enghraifft
Cyflwynwyd y patrwm:

I bought a ticket

4 mis yn ddiweddarach, roedd y dysgwyr yn defnyddio:

I **buyed** a new coat

Y rheswm pam mae hyn yn digwydd ydy bod gan y dysgwyr well dealltwriaeth o’r iaith ac yn dewis gwybodaeth. Mae’r dysgwyr yn ymwybodol o’r patrwm –ed, ac yn trio ei ddefnyddio. Golygai hyn bod y dysgwyr yn datblygu eu geirfa, er bod y patrwm yn anghywir.

Defnyddiodd Dr Schellekens waith Krashen i egluro’r gramadeg sydd yn cael ei ddatblygu ond yn cael ei ddefnyddio yn anghywir gan ddysgwyr.

Progressive (ing)	he is <u>writing</u>
Copula (to be)	I <u>am</u> from Somalia
Auxiliary (to be)	he <u>is</u> writing
Article	I saw <u>a</u> man walking down <u>the</u> street
Irregular past	she went, bought, flew
Regular past	she worked <u>ed</u>
3 rd person (s)(ing)	he <u>visits</u>
Possessive	My uncle’ <u>s</u> house

Gwrando

Dealltwriaeth / Comprehension

“Progressing the stream of sound”

Yn ol Dr Schellekens, yr hyn sydd wedi dod i’r amlwg yn ei hymchwil ydy bod llawer o dasgau ar gyfer dealltwriaeth yn cael ei wneud mewn dosbarthiadau, ond does dim digon o ymarfer dilyniant llif sŵn. Dywedodd Dr Schellekens bod ynganiad y dysgwyr yn gwella wrth ymarfer y dilyniant llif sŵn.

Mae geiriau yn cael eu dweud yn wahanol i’r hyn sydd ar bapur, er enghraifft:

Drink a cup of tea rydym yn ei ddweud y ffordd yma:

Drin ka cu pe tea

Wrap it in a scarf rydym yn ei ddweud y ffordd yma:

Rapi ti ne sacrf

Egwyddor

I adnabod ffiniau geiriau a deall sut mae geiriau yn cysylltu.

Yn Saesneg, mae saib naturiol ar ol 12 sill pan yn siarad. Pan yn gwrando, yn aml does dim arwydd lle mae geiriau yn dechrau ac yn gorffen. Bydd dysgwyr yn sganio am eiriau cyfarwydd, er enghraifft:

“How much are they worth?” Yr hyn a oedd y dysgwyr yn feddwl oedd y frawddeg oedd “How much work?”

Enghraifft arall a gafodd ei ddefnyddio oedd o waith Michael Vaughan Rees.

Wedi ei ysgrifennu fel:	Swnio fel:
One apple	Wa napple
Two apple	Two wapples
Three apple	Three yapples
Four apple	Four yapples

Billy ate an apple a nice ripe apple
Billy yate a napple a nice ri papple
Lucy ate an ice cream a nice creamy ice cream
Lucy yate a ni scream a nigh screamy yi scream
Chloe ate an egg a nice brown egg
Chloe yate a negg a nice brow negg

Lexical segmentation – sgil o adnabod geiriau mewn llif o swm.

“The principles of lexical segmentation varies across languages” Dr Schellekens

Gall hyn ei weld yn amlwg yn y gwahaniaeth rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

“90% of words in English have stress on the first syllable” - Anne Cutler, tra mae'r Gymraeg gyda'i phwyslais ar y sillaf olaf ond un.

Gwrando ydy'r sgil mwyaf pwysig i ymfudwyr, ac mae'n bwysig iddyn nhw weithio ar y segmentiad geiriadurol gan ei bod yn bosibl i ddysgwyr fod wedi dysgu gair, ond nad ydyn nhw yn gallu ei adnabod mewn llif sgwrs. Gall hyn hefyd fod yn berthnasol i'n dysgwyr Cymraeg.

Mae hyder dysgwyr yn codi pan meant yn sylweddoli eu bod yn deall rhywfaint o sgwrs Gymraeg, ac yn gweld eu datblygiad a'u cynnydd. Ond mae eu hyder hefyd yn cael ei lorio os nad ydyn nhw yn deall.

Goblygiadau dysgu Gwrando

Yn aml, mae athrawon yn cysidro gwrando fel un o'r sgiliau cryfaf gan y dysgwyr. Yn ol Dr Schellekens, gwrando ydy'r sgil mae dysgwyr yn ei boeni amdano fwyaf.

Mae gwrando yn cynnwys dau “spiky aspect” – o'r gwaelod i fyny (deall swm y gair) ac o'r top i lawr (comprehension). Barn Dr Schellekens oedd bod angen adeiladu ar ddeall swm gair cyn i ni ddisgwyl i'r dysgwyr allu deall, ond yn aml iawn, bod athrawon yn canolbwyntio ar y dealltwriaeth yn unig.

Tasg oedd Dr Schellekens yn ddefnyddio yn ei dosbarthiadau oedd “Dictation”, sef y tiwtor i ddarllen ar goedd a'r dysgwyr i ysgrifennu yr hyn maent wedi ei glywed. I farcio'r gwaith, basai'r myfyrwyr yn cael copi o'r darn oedd y tiwtor wedi ei ddarllen, a byddent yn marcio gwaith eu hunain.

Yn ol Dr Schellekens, roedd y myfyrwyr wrth eu boddau yn gwneud y dasg yma, gan eu bod yn mwynhau gweld yr hyn oedden nhw wedi ei adnabod, yn ogystal a'r geiriau nad oedden nhw wedi eu hysgrifennu yn gywir. Roedd sillafu yn gwella gyda'r dasg yma yn ogystal.

Ar gyfer nodiadau y sesiwn: philida@schellekens.co.uk

“Differentiated learning supported by technology.”

Amanda Wilson, Callie Wilkinson, Mike Harrison, Phil Bird o’r British Council

Mae’n holl bwysig bod y dysgwyr yn awyddus ac yn barod i ddysgu, bod ganddyn nhw ddiddordeb yn y gwaith a bod amrywiaeth o dechnegau yn cael eu defnyddio wrth ddysgu.

Dyma enwau safweoedd defnyddiol ar gyfer cyflwyno uned / thema:

Flickr

Google images

You tube

Rhaid bod yn ofalus efo hawlfraint

Creative commons yn cael ei ddefnyddio gan y pedwar uchod sydd yn galluogi defnydd o luniau, gwybodaeth a fideo cyn belled ein bod yn cydnabod o le y cawsom y deunyddiau.

Premier skills ar wefan y British Council lle y gellir creu deunyddiau yn hawdd – teipio sript ar gyfer darn clywedol/recordio sript ysgrifenedig.

Word clouds – cwmwl o eiriau lle mae’r geiriau maint mawr yn cael eu defnyddio yn fwy aml, a’r geiriau llai eu maint yn cael eu defnyddio yn llai aml. Gellir cael syniad o’r hyn sydd yn y darn darllen wrth gip-ddarllen y cwmwl geiriau.

Wallwisher – gallu “postio” lluniau ar “wal”. Arwyddfwrdd ar lein.

Process

Syniadau ar gyfer tasgau darllen a deal:

Myfyrwyr, mewn grwpiau neu ar eu pen eu hunain, i greu cwestiynau ar gyfer “prawf” comprehension ar y thema maen nhw wedi ei ddewis.

Bydd y prawf yn fwy perthnasol iddyn nhw gan mai cwestiynau y dysgwyr fydden nhw’n ateb.

<http://transl8it.com>

Email writing (Gwefan y British council) – worksheet (clic) – deunydd – trans8it – cut&paste y deunydd – cyfieithu i “txt speech”.

Tasg:

1. Dysgwyr i gael cerdyn efo *txt speech* arno. Ysgrifennu’r gwybodaeth nol i’r Saesneg gwreiddiol.
2. Dysgwyr i gael eu gosod mewn grwpiau. Y gwybodaeth i gael ei osod yn y drefn gywir er mwyn creu y llythyr/ebost ayyb gwreiddiol.

Adnodd gwych ar gyfer dysgwyr sy’n dysgu Saesneg. Efallai na fasi’n gweithio gyda’r Gymraeg.

Thomas Cook – Journey planner.

Tasg: rhoi cyfarwyddiadau i fynd o un lle i le arall.

Enghraifft – teithio yn Llundain.

“Dw i yn Euston a dwi isio mynd i’r London Eye” – defnyddio’r wefan i dderbyn cyfarwyddiadau.

Ffordd dda i chwarae rol gan ddefnyddio lleydd “go iawn”.

Product

Dyma wefanau sydd yn ddefnyddiol ar gyfer creu gwaith gwahanol:

Glogster (creu poster) www.teachertrainingvideos.com/glogster/index.html

Dvolver (creu cartwns) www.scribd.com/doc/20418106/4/Dvolver-Moviemaker

Telescopictext (darn darllen sy'n ymestyn!)

www.telescopictext.org/resources/how-to-use-the-writing-tools

Mae'r Glogster yn galluogi i'r defnyddiwr greu poster sydd gyda elfennau wedi eu hanimeiddio.

Mae telescopictext yn adnodd sy'n creu darn darllen. Mae'n dechrau gyda un frawddeg, ond yn ymestyn wrth glicio ar eiriau penodol, ac yn ychwanegu brawddegau eraill. Yn y diwedd mae paragraff wedi ei greu. Ffordd dda i ddysgwyr efallai sydd yn dychryn wrth weld gormod o ysgrifenedd gyda'i gilydd, ac yn gallu darllen y darn un frawddeg ar y tro.

Fy hoff adnodd oedd y Dvolver. Mae hwn yn galluogi'r defnyddiwr i greu cartwn. Mae dewis o gefndir a chymeriadau sydd ond angen clic a'u symud i'r lle priodol ar y daflen. Wedyn rhaid teipio'r hyn mae'r cymeriad angen ei ddweud, ac mae'r olygfa wedi ei chwblhau. Sym!!!

Roedd dwy sesiwn arall i'r diwrnod:

- Typical reasons for under-performance in speaking and listening examinations - Janet Golding - Trinity College.

Roedd y sesiwn yma yn benodol ar arholiadau Trinity ac er ei bod yn ddiddorol clywed am y rhesymau pam oedd dysgwyr yn tangyflawni yn yr arholiadau, nid oedd yn berthnasol i ddysgu Cymraeg.

- All for one and one for all – James McGoldrick

“Supporting ESOL learners with literacy needs through collaboration and self-study.”

Dywed James McGoldrick bod myfyrwyr yn dysgu ac yn cofio pethau yn well os ydyn nhw wedi gweithio gyda'i gilydd yn lle dim ond gwranddo ar yr athro.

Enghraifft:

Dicagloss – athro i ddarllen darn i'r dosbarth. Mae'r dosbarth i ail-greu'r darn drwy restru'r keywords. Mae hyn yn gweithio'n dda gan eu bod yn cyd-weithio ar eirfa, sillafu a gramadeg.

Collaborative = dysgwyr mewn parau/grwpiau yn cyd-weithio

Collective = y dosbarth i gyd i gyd-weithio

“Group language experience” – rhaid cael profiad mae pawb yn gallu ei rannu, rhywbeth mae'r dosbarth i gyd wedi ei wneud gyda'i gilydd, e.e. picnic, trip, mynd am banded ayyb.

Rhaid defnyddio geiriau'r dysgwyr i greu darn – rhestru ar y bwrdd gwyn.

Yr athro i “helpu” i greu darn cywir yn disgrifio'r digwyddiad.

Torri'r darn yn ddarnau – grwpiau i'w ail-osod yn ei drefn.

“Joint construction method”

Dechrau gyda darn, ee, ebost. Darllen fel comprehension – trafod y cynnwys.

Fel dosbarth, ysgrifennu ymateb i'r ebost.

Fel dosbarth, rhestru components ebost.

Mewn parau, ysgrifennu ebost eu hunain.

Ychydig iawn o gydweithio sy'n digwydd mewn dosbarthiadau pan mae hi'n dod i waith darllen/ysgrifennu.

Self Study = Gwaith Cartref

T = text layout/grammar etc

S = sentence punctuations etc

W = word spelling etc

Enghreifftiau o waith cartref:

Casglu deunyddiau, ee. Papur newydd (S), TV Guide (T)

Tynnu lluniau o arwyddion (W)

Darllen darn ac uwcholeuo pob prif lythyren ac atalnod llawn (S)

Rhestr siopa (W)

Cyfarwyddiadau e.e. Sut i wneud paned – gellir datblygu hyn i greu llyfr rysait dosbarth.

“Look, cover, say, write, check” – ffordd i ddysgu sillafu geiriau.

Yn amlwg, roedd yr hyn oedd yn cael ei rannu a ni yn syniadau, deunyddiau ac adnoddau sydd ar gyfer dosbarthiadau Saesneg fel ail iaith, ond mae posib defnyddio'r syniadau a'r adnoddau ar lawr dosbarthiadau Cymraeg er ein bod yn canolbwyntio fwy ar yr elfen lafar.

Gan ein bod yn y sesiwn yma drwy'r dydd, roedd hi'n braf cael amser i sgwrsio gyda thiwtoriadaid eraill a oedd wedi dod o bob cwr o'r byd ac yn dysgu mewn sefydliadau gwahanol. Cawsom amser ar y diwedd i rannu profiadau/pryderon/problemau oedd wedi codi yn y dosbarth – ffordd dda i ddod i gyfarfod a'r rhai nad oeddem wedi cael cyfle i gael sgwrs a nhw yn flaenorol.

Dydd Sadwrn, Ebrill 16eg

Storytelling to celebrate Cultural Diversity – David Heathfield

Sesiwn ddifyr yn gwrandao ar DH yn adrodd stori mewn ffordd fywiog – oedd yn galluogi'r gwrandawyr i gofio'r stori a'r cymeriadau.

Yn gyntaf, roedd y gynulleidfa yn gwrandao ar y stori yn cael ei adrodd. Roedd DH yn disgrifio'r ddelweddaeth meddyliol – rhai yn V, rhai yn A, rhai yn K (Visual, Auditory a Kinesthetic). Roedd ambell un yn gweld y ddelwedd fel darlun, roedd rhai yn clywed y synau fasen nhw'n ddychmygu oedd yn yr olygfa, ac eraill yn gweld yr olygfa fel petaen nhw yn rhan ohoni – yn teimlo gwres yr haul ayyb.

Wedi ein paru, roedd rhaid i un partner ddweud y stori wrth y llall fel petai yn un o'r cymeriadau (newid o'r 3ydd person i'r person 1af)

Gofynnodd DH i ni roi “anrheg” i un o'r cymeriadau – ac i ni egluro wrth ein partner pam ein bod a) wedi dewis y cymeriad a b) wedi penderfynu ar yr anrheg.

Roedd yr adborth yn ddiddorol – rhai wedi dewis anrhegion ymarferol – cloch, moron (i'r asyn yn y stori) ac eraill wedi dewis anrhegion dychmygol, fel calon fawr i'r ffermwr.

Y dasg nesaf oedd i ddewis rhwng dau gwestiwn a thrafod gyda partner:

1. Pa gymeriad sydd wedi gwneud yr argraff fwyaf arna i? Pam?
2. Sut mae'r stori yma wedi fy “nghyffwrdd” yn bersonol?

Y gweithgareddau posib:

Trafod beth oedd wedi digwydd cyn y digwyddiad adroddwyd amdano yn y stori

Creu adroddiad papur newydd

Cerdd

Dawns

Be' ddigwyddodd nesa?

Creu darlun/cartwn

Mae'r daflen ar gael fel erthygl ar www.teachingenglish.org.uk

Reassessing the principles of teaching reading – Dr Philida Schellekens

Goblygiadau ar gyfer dysgu

Rhaid penderfynu pa mor hanfodol ydy'r eirfa l'r dysgwyr – os ydyw yn bwysig, bydd angen l'r tiwtor gynllunio ar gyfer “ailgylchu”r eirfa er mwyn l'r dysgwyr ei gofio.

Mae 4 sgil darlllen:

Sgimio

Sganio

Darlllen ar gyfer sylwedd (gist)

Darlllen ar gyfer dealltwriaeth

Ydy dysgwyr ail iaith angen y sgiliau yma ar gyfer darlllen? Ydyn nhw'n gallu defnyddio'r 4 sgil yn yr ail iaith?
"Unskilled readers are unable to adjust processing mode i.e. they read word-for-word regardless of the purpose for which they read the text." Koda 2005

Ychydig iawn o brawf sydd fod dysgu'r sgiliau yma yn hyrwyddo datblygiad darllenn effeithiol.

"Learners transfer some skills from first language to their second: pragmatic, phonological, word-decoding knowledge" Grabe 2009.

Rhaid datblygu hyfedredd yn yr ail iaith cyn y gall sgiliau iaith gyntaf eu trawsglwyddo.

Am daflen o'r sesiwn, gellir ehostio philida@schellekens.co.uk

"Arousal" in the ELS Classroom – Tamara Jones

"Arousal = the easiest way to learn"

Mae angen ymarfer 10 neu 12 gwaith cyn I ni gofio geirfa.

"Motivation + Attention = Arousal"

Gellir addasu'r gemau sydd wedi eu rhestru ar y daflen ar gyfer unrhywbeth:

(ar gyfer copi o'r daflen, gellir ehostio jonestamara@hotmail.com)

Boardgame – defnyddio Microsoft a Clipart neu eiriadur lluniau – llungopio tudalen a rhoi llinell rhwng pob llun i'w cysylltu = gem ddrilio gramadeg.

CardMatchGame – adolygu geirfa neu idiomau. Parau i ddod o hyd i'r "par" – ddim yn cael dweud y gair na dangos y gair sydd ar y cerdyn. Gellir geirio'r gair (lipreading), holi cwestiwn ac ateb, gair a diffiniad, gair a llun.

Dice Game – Timau. Cwestiwn ac ateb. Y tim sy'n ateb yn gywir yn cael rhoio'r deis = ennill cynifer o bwyntiau â mae'r ddeis wedi glanio arno.

The Dot Game – gellir adolygu unrhywbeth gyda'r gem yma. Timau. Pob aelod o'r tim yn cael cyfle i ateb yn eu tro. Os yn ateb cwestiwn yn gywir, mae'r aelod yn cael tynnu llinell o smotyn at smotyn arall (fertigol neu llorweddol). e.e

```
  .____. . . . .  
  . . . . .  
  . . . . .  
  . . . . .  
  . . . . .  
  . . . . .
```

Y bwriad ydy creu sgwar gyda'r llinellau (drwy gael atebion cywir!). Os ydy'r tim yn cael ateb cywir ac wedi creu sgwar gyda'u llinell, mae cyfle i gael tro arall i osod llinell arall.

Y tim sydd efo'r nifer fwyaf o sgwariau ar ddiwedd y gem sy'n ennill.

The fly swatter game – gem gyflym i gynhesu. Rhaid cael "flyswatters" (gellir eu cael o IKEA).

Rheolau: Dim taro person arall (!)

Dim ond un siot sydd

Mae'n bwysig bod y tiwtor yn cadw cyflymder y gem wrth ofyn y cwestiynau ar dempo pendant.

Dewis o 3 ateb ar y bwrdd gwyn. Timau.

“flyswatter” ac i’w osod ar yr ateb maen nhw’n feddwl sy’n gywir. Y flyswatter sydd gyntaf ar yr ateb cywir sydd yn ennill pwynt i’w tim. Wedi ateb cwestiwn, rhaid i aelodau eraill gyfnewid lle a’r aelodau blaenorol.

M&M Game – defnyddio testunau megis y teulu, bwyd a diod, gwaith ayyb.

Pob person yn dewis M&Ms (y fferins). Mae pob testun a’i liw – ee, teulu – coch, bwyd a diod – gwyrdd, gwaith – melyn.

Os oes ganddyn nhw 4 M&M coch, bydd angen dweud 4 peth am eu teulu. Os oes ganddyn nhw 2 goch 1 melyn ac 1 gwyrdd, yna bydd angen dweud 2 beth asm y teulu, un peth am fwyd a diod ac un peth am waith. Ar ol dweud eu brawddegau yn llwyddianus, fe gant fwyta’r fferins.

Playdough Game/Pictionary – grwpiau o 3 neu 4. Clai neu bapur i bob grwp. 1 aelod yn dod i flaen y dosbarth i weld y cerdyn sydd â’r gair rhaid iddyn nhw dynnu llun neu lunio gyda chlai ar gyfer eu grwp. Rhaid i’r grwp ddyfalu beth ydy’r gair oedd ar y cerdyn.

Gellir meimio’r gem yma yn ogystal.

“The Hot Seat” – Grwpiau o 3 neu 4. Un aelod a’i gefn at y bwrdd gwyn. Y gweddill o’r grwp yn gweld yr hyn sydd ar y bwrdd. Rhaid i’r aelodau roi cliwiau i’r un yn y “gadair goch” geisio dyfalu’r hyn sydd ar y bwrdd gwyn. Ffordd i gael pob aelod o’r grwp i gymryd rhan.

“When we teach, we are changing the form of the brain” – Tamara Jones

Dydd Sul, Ebrill 17eg

The Connected Classroom – Russell Stannard

Teachertrainingvideo.com – fideo o RS yn dangos beth i’w wneud gam wrth gam

<http://www.scribd.com/doc/53182143>

Vocaroo – adnodd i’r dysgwyr recordio eu hunain adref a’i yrru i’r tiwtor ar e-bost.

Audioboo – tebyg i Vocaroo ond yn gallu ei gysylltu ar youtube.

Bubblr – cymryd lluniau o Flickr (adnodd lluniau gan ffotograffwyr proffesiynol) i’w ddefnyddio mewn cyflwyniad.

Bookr – Tebyg i bubbler ond bod y gosodiad yn wahanol – hwn i greu “llyfr”

Gallai rhain oll fod yn adnodd defnyddiol i’r myfyrwyr ar gyfer creu cyflwyniad unigol llafar.

Word Magnet – Gellir ysgrifennu geiriau, pwyso’r botwm acmae’n troi’r geiriau i “fagnedau” y gellir eu manipiwleiddio ar y sgrin. Does dim angen cysylltiad efo’r we ar gyfer hwn ac mae’n gweithio’n arbennig o dda efo bwrdd gwyn rhyngweithiol. Mae’n ffordd o adeiladu brawddegau. Gellir dileu gair neu eiriau – sialens i’r myfyrwyr gofio’r geiriau coll.

Rhaid llwytho’r safwe o’r we i’r bwrdd gwaith (desktop) ac mae angen Adobe arbennig ar ei gyfer, sydd hefyd i’w gael ar y we. Mae’r safwe a’r Adobe am ddim.

Storybird – tebyg i bookr – creu llyfrau gyda lluniau gan artistiad. Gellir cyhoeddi’r llyfr (am bris wrth gwrs!), neu ei “bostio” ar y we am ddim.

Gellir archwilio themau drwy glicio ar air a bydd yr holl luniau yn ymwneud â’r gair hwnnw yn cael ei arddangos.

Mailvu – Yn eich galluogi i yrru negeseuon Webcam hyd at 10 munud. Ardderchog ar gyfer gweithgareddau llafar. Adnodd ar gyfer rhoi adborth llafar i fyfyrwyr. Dydy hi ddim yn bosibl arbed y gwaith – mae’n cael ei ddileu ar ol hyd at 360 diwrnod.

OneStopEnglish: Essential tips, tricks and lesson ideas – Tim Bowen a Lucy Williams

Mae OnestopEnglish yn wefan ddefnyddiol ar deunyddiau dysgu yn Saesneg. Petai gwefan debyg yn Gymraeg ar gyfer Dysgu Cymraeg, basai'n adnodd gwych!

Yr hyn a gafodd ei amlygu yn y sesiwn yma oedd yr adnoddau sydd ar gael ar y wefan – mae rhai enghreifftiau am ddim, ond ar gyfer cael mynediad at y storfa gyfan, rhaid ymaelodi a thalu – a'r "miniplays" sydd yn newydd ganddyn nhw. Sgriptiau sy'n cyfleu sgysiau am fywyd bob dydd ym Mhrydain ydyn nhw, gyda'r pwyslais ar realaeth iaith – yn defnyddio tafodiaith ac acienion gwahanol ardaloedd ym Mhrydain. Mae'r sgript wedi ei recordio hefyd, fel y gellir clywed sut mae'r ddeialog yn cael ei pherfformio yn gywir.

Bum mewn nifer o sesiynau dros gyfnod y gyntadledd – roedd rhai yn amherthnasol i'r Gymraeg, ond roedd y mwyafrif yn ddiddorol ac yn addysgiadol. Roedd yn braf cyfarfod bobl eraill sydd yn yr un cwch a ni – yn dysgu ail iaith ym mhedwar ban byd – a chlywed eu profiadau nhw.

Ond y peth gorau am y gynhadledd yma, yn fy marn i, oedd y ffaith fy mod, sydd yn diwtor newydd eleni, wedi cael y cyfle i ddod i adnabod y tiwtoriaid a swyddogion y Ganolfan oedd ar y gynhadledd ychydig yn well.

Dyma obeithio y caf fynd eto yn y dyfodol!

LLINOS JONES